Cenn@d

MEDI 17 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 238

# Cipolwg fach ar Gynhadledd Senana Cymru, 2–4 Medi 2025



O'r chwith i'r dde: Laura-Lee Lovering (BMS), Hazel Williams Jones, trysorydd; Danni Worley, is-lywydd; Natalie Morgan, llywydd; Moira Davies, cyfeilydd; Eleri Lloyd Jones, is-ysgrifennydd; Suzanne Roberts, ysgrifennydd

Am yr ail flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd Cynhadledd breswyl Senana Cymru yng Ngholeg Trefecca lle roedd croeso mawr yn disgwyl pawb.

**Nos Fawrth: Noson y Llywydd**
Dyma'r digwyddiad cyntaf bob blwyddyn, ac eleni, yn dilyn swper o'r radd flaenaf, cafwyd tipyn o hwyl o dan arweiniad y Llywydd, Natalie Morgan, gyda noson o 'Pastor Master'. Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol – Sŵper Genod – ar eu doniau creadigol. Daeth y noson i ben mewn epilog gan Jan Stanley.

**Dydd Mercher: Y Duw sy'n ein gweld a'n hadnabod**
Am ddiwrnod bendigedig! Wedi'r addoliad boreol gan Ann Lapage, dan arweiniad Natalie, edrychwyd ar Genesis 16: 1–16, gan drafod Hagar yn y grwpiau, yn ogystal â'r Duw sy'n ein gweld. Yna croesawyd Laura-Lee Lovering (Cydlynydd Stiwardiaeth y Greadigaeth i'r BMS) i gynnal dau sesiwn, pryd y cafwyd gwybod am y gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud ym Mheriw. Canolbwyntio ar Salm 139 wnaeth Natalie yn yr oedfa gymun fendithiol a gynhaliwyd yn yr hwyr.

**Dydd Iau: Y Duw sy'n siarad**
Wedi defosiwn boreol gan yr is-lywydd Dani Worley, cafwyd cyfle i astudio a thrafod y Duw sy'n siarad, gan ganolbwyntio ar stori Lydia (Actau 16:11–15). Bendith oedd clywed am y merched oedd wedi cael dylanwad ar eu teithiau ffydd personol, am bwysigrwydd lletygarwch, a sut mae Duw yn parhau i siarad â'i bobl ar hyd y daith. Cyn cloi'r gynhadledd gyda defosiwn gan Eleri Lloyd Jones, cafwyd cyfle i wylio ffilm am wreiddiau mudiad y Senana.

Mae'r criw a fynychodd y digwyddiad yn ddiolchgar iawn i Goleg Trefeca am y croeso a'r lluniaeth ardderchog; i Rosa Hunt am edrych ar eu hôl am dridiau; i Laura-Lee am ei chyflwyniadau diddorol iawn; i Moira Davies am gyfeilio; i Natalie am arwain yr astudiaethau Beiblaidd a'r cymun; ac am y gymdeithas, y cwmni da a'r sgyrsiau bendithiol.

*Bonni Davies*

# Diwrnod Agored Glyn Nest

Unwaith eto eleni fe gawsom y cyfle i ddod at ein gilydd i ddathlu ac i godi arian tuag at ein cartref gofal.

Mae Glyn Nest yn 55 mlwydd oed eleni, ac wedi gweld cryn dipyn o newid, ond un peth sydd yn aros yn gyson o hyd yw'r gefnogaeth oddi wrth y gymuned.

Daeth llawer ynghyd i Gastellnewydd Emlyn ar brynhawn o haf. Roedd yna lu o stondinau, yn cynnwys stondin gacennau, nwyddau o'r ardd a nwyddau wedi eu creu gan y staff a'r deiliaid.

Braf oedd clywed cyfarchion oddi wrth y Parchedig Deb Stammers, Llywydd Mudiad y Chwiorydd; y Parchedig Rob Nicholls, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru, ac wrth gwrs gan lywyddion anrhydeddus y dydd, Mr a Mrs Vivian a Bonni Davies, Cwm Gwaun. Mae'r ddau wedi bod yn gefnogol tu hwnt i'r cartref ar hyd y blynyddoedd a hyfryd oedd clywed oddi wrth y ddau wrth iddynt nhw agor y diwrnod agored.



Diolchodd y ddau i'r staff a'r gwahanol bwyllgorau am bopeth maen nhw wedi ei gyfrannu i sicrhau llwyddiant parhaus y cartref arbennig yma.

Diolch hefyd i'r Parchedig Irfon Roberts a'i briod, Mrs Mair Roberts, am eu gwaith diflino, ynghyd a'r pwyllgor tŷ yn sicrhau llwyddiant y diwrnod.

*Sian Elin Thomas*

Codi'r Llen – Maes Llafur yr Oedolion 2025/26
**Tudalen 4**

O'r byd a'r betws
**Tudalen 7**

*Moelallt ac Emynau Eraill* – Gerald Morgan, 2025
**Tudalen 8**

# Gwireddu breuddwydion ym Mhontypridd – sefydlu ‘Capel y Bont’

Fel tîm bach o weithwyr Eglwys Bresbyteraidd Cymru sy’n byw yn ardal Rhondda Cynon Taf, rydym wedi bod yn trafod dros y blynyddoedd diwethaf hyn ynghylch sefydlu eglwys newydd ym Mhontypridd. Datblygodd y syniad o’n profiad o weld cymuned yn datblygu allan o waith Parc Arts yn Nhrefforest. Tybed oedd yr Ysbryd yn ein harwain ni i sefydlu cymuned ffydd yn yr ardal?

Breuddwyd yn unig oedd hon nes i ni glywed y byddai hen adeilad St David’s Uniting Church yn wag cyn bo hir – adeilad yng nghanol tref Pontypridd a chanddo nifer o ystafelloedd y byddai modd eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau estyn allan. Daeth y syniad wedyn am ddefnyddio’r adeilad yn ganolfan ar gyfer plant ac oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol. Man fyddai’n cynnig cymorth a hyfforddiant i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol fyddai hwn, a’r rheini’n cael eu hwyluso gan elusennau oedd yn arbenigo yn y maes. Ac felly aethom at yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig gyda’n syniadau am yr adeilad. Yn hael iawn, cynigion nhw’r adeilad i ni am ddim – cynnig roeddem yn ddigon hapus i’w dderbyn!

Mae hi bellach yn flwyddyn ers i wasanaethau gael eu cynnal yn yr adeilad, ond dydd Sul, 21 Medi, am 4yh bydd yr eglwys newydd – Capel y Bont – yn cynnal ei hoedfa gyntaf erioed.

Oedfa amlieithog yn Gymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain fydd hi. Dyma’r tro cyntaf i oedfa Gymraeg gael ei chynnal yn y dre ers nifer o flynyddoedd. Bydd croeso i bobl o bob oed a gallu yn yr oedfa. Bydd yr ystafell wedi’i threfnu’n anffurfiol, gyda phawb yn eistedd o gwmpas byrddau. Hefyd, bydd gweithgareddau ar y byrddau yn seiliedig ar thema’r gwasanaeth.

Eisoes cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn yr adeilad er mwyn ceisio gwasanaethu’r gymuned, yn eu plith yr oedd eisteddfod Pontypridd ar ei newydd wedd a chôr cymunedol newydd – yn ogystal â diwrnod hwyl yn ddiweddar.

Mae’n bwysig pwysleisio nad prosiect neu arbrawf ydy Capel y Bont, ond cymuned ffydd y mae modd i bobl fod yn rhan ohoni. Rydym yn mawr obeithio y byddwch chi’n cofio amdanom ni dros yr wythnosau a’r misoedd nesaf ac yn ein cynnal ni yn y gwaith trwy weddi.

*Owen Griffiths,*
*ar ran y tîm sy’n arwain y gwaith*




**Cyfarfod cyntaf Capel y Bont ar y Sul – 21/9/25**
3.30pm – Drysau’n agor a chyfle i gael paned a bisged.
4pm – Bydd y cyfarfod yn dechrau.
5pm – Paned a bisged ar gael os ydych chi eisiau aros a sgwrsio.

**Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd?**
Byddwch yn cael eich croesawu a bydd modd ichi gael diod a bisged o’r bar yn y brif ystafell. Yna, mae croeso ichi ddod o hyd i rywle i eistedd. Bydd cyfarpar amddiffyn clustiau a ‘fidgets’ wrth y fynedfa i’r rhai a allai eu cael yn ddefnyddiol. Mae’r adeilad yn hygyrch i gadeiriau olwyn gyda chyfleusterau priodol.

**Beth fydd y fformat?**
Cyfarfod wedi’i gynllunio fel bod pobl o bob oedran a gallu yn aros gyda’i gilydd drwy gydol y sesiwn fydd hwn. Bydd y Gymraeg a’r Saesneg yn cael eu defnyddio a rhywfaint o Iaith Arwyddion Prydain. Bydd gweddïau, sgwrs fer a rhywfaint o ganu.

**Sut bydd yr ystafell wedi’i threfnu?**
Byddwn yn eistedd o amgylch byrddau a fydd â gwahanol weithgareddau bob wythnos yn adlewyrchu thema’r cyfarfod.

**Pwy all ddod?**
Pawb! Mae Capel y Bont yn lle i bawb ddod fel y maent. Does dim disgwyl i blant fod yn dawel a bydd y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a’u rhieni/gofalwyr yn cael eu deall a’u croesawu.

**Am ba hyd y bydd yn para?**
Dim mwy nag awr.

**Beth os byddaf i neu rywun yn fy ngofal wedi’i orlethu?**
Er y byddem wrth ein bodd pe bai pawb yn aros gyda’i gilydd am y cyfarfod cyfan, rydym yn deall bod angen seibiant ar bobl weithiau. Bydd gennym ystafell gyfforddus, dawel ichi ei defnyddio os bydd ei hangen arnoch.

# Plant ar daith gyda Paul – Anhrefn Awst ’25 yng Ngholeg y Bala



Wrth edrych yn ôl ar wythnos Anhrefn Awst, cwrs preswyl i blant 8–11 oed yng Ngholeg y Bala, y peth pwysicaf s’gen i i’w ddweud ydy: diolch i’r Arglwydd am y cyfle. Diolch iddo am y cyfle i ddod i adnabod y genhedlaeth nesaf yn well. Diolch iddo am y cyfle i rannu’r newyddion da am Iesu Grist hefo nhw. Diolch iddo am dywydd anhygoel wnaeth sicrhau ein bod wedi gallu gwneud pob dim yr oeddem wedi ei gynllunio.

O’r cychwyn cyntaf, pan gyrhaeddodd y criw o dros 40 o blant drwy’r drws, roeddem yn gwybod y byddai yna lot o waith gofalu drostyn nhw. Ond, a bod yn deg hefo’r plant, roedden nhw i gyd yn gwrando yn dda. Er mai dim ond rhyw bedair awr o gwsg gafodd un criw o fechgyn y noson gyntaf, roedd hwyliau da iawn ar bawb drwy gydol y cwrs.

Mae ôl gwaith y flwyddyn yn cael ei weld yn glir yn ystod cwrs fel hyn. Nid yn unig wrth feddwl o ble maen nhw’n dod – Blaenau Ffestiniog, Llandysul, Pwllheli, Ynys Môn, y Cymoedd (roedd Cymru i gyd yn cael ei chynrychioli, bron iawn!), ond hefyd roedd yna gymaint o blant oedd yn adnabod yr efengyl yn barod! Felly, diolch i bob un person sydd ynglŷn â gwaith plant (ac ieuenctid) dros y wlad, achos heb eu gwaith nhw ni fyddai Anhrefn Awst mor llwyddianus.

Cawsom nifer o weithgareddau gwahanol, o noson gwis, sioe dalent, trip i’r Gelli Gyffwrdd, a gemau dŵr. Roedd hi’n bleser gweld y plant yn mwynhau cymaint, a’r arweinwyr hefyd.

Dydw i heb arwain ar gwrs Anhrefn Awst ers rhyw chwe blynedd ac felly roedd hi’n hyfryd dod yn ôl i’r hen aelwyd, fel petai, a gweld plant oedd wedi bod ar Anhrefn Awst rŵan wedi tyfu i fyny i fod yn arweinwyr ifanc! Dyma ffrwyth gwaith Duw yn ein gwlad, ei fod yn galw ei bobl ac yn codi arweinwyr newydd! Ond eto, roedd o’n brofiad od gweld y rhai oedd yn arfer bod yn blant bron yn oedolion (fi sy’n mynd yn hen, siŵr braidd).


Thema’r wythnos oedd hanes Paul: ei dröedigaeth; yr hanes amdano yn y carchar yn Philipi; ei longddrylliad; a’i ddysgeidiaeth am arfwisg Duw. Roedd yn teimlo weithiau mai dim ond cyffwrdd â’r haen gyntaf o hanes a dysgeidiaeth Paul wnaethon ni, a’r hyn wnaeth Duw trwyddo, ond mae’n rhaid atgoffa ein hunain mai 8–11 oed oedd y plant, nid myfyrwyr ôl-radd. Ac felly, gweddïo wnawn fod yr hyn yr ydym wedi ei ddweud, ei ddysgu, a hefyd, gobeithio, fod y ffordd wnaethom ni fel arweinwyr eu caru nhw tra roedden nhw yn ein gofal ni, wedi plannu hadau ffrwythlon iawn ac mewn rhyw ddegawd y byddwn yn gweld y plant yma’n arwain ar y cwrs eu hunain.

Wrth edrych yn ôl ar yr wythnos, rydym yn diolch i Dduw am ei holl waith ynom a’i fod yn ein hanrhydeddu drwy ein cynnwys yn ei waith. Diolch iddo fod pob dim yn bosibl gyda Duw, ac nad drwy ein nerth ein hunain yr ydym yn gweithio ond drwy nerth yr Ysbryd Glân.

*Morgan Bryn Williams*
*Ynys Môn*



# Codi'r Llen – Maes Llafur yr Oedolion 2025/26




## MAES LLAFUR OEDOLION 2025/26

O fis Hydref 2025 ymlaen y maes llafur ar gyfer yr oedolion fydd y gyfrol *Codi'r Llen*, sy'n ein tywys ar daith 40 sesiwn yn edrych ar rai o ferched arwrol yr Hen Destament. Cyhoeddwyd y gyfrol, sy'n gyfieithiad o *Unveiled*, ddwy flynedd yn ôl, ac mae'n dda cael cyfle i'w ddefnyddio fel sail i'n hastudiaethau dros y flwyddyn nesaf. Yn ychwanegol at y gyfrol ei hun, bydd myfyrdod a chyfres o gwestiynau hefyd yn ymddangos bob wythnos yn *Cenn@d* a'r *Tyst*, i'n cyfeirio ar hyd y daith. Diolch i Sian Meinir am baratoi'r rhain ar ein cyfer.

Mae rhai o ferched yr ysgrythurau Hebraeg yn adnabyddus, ond prin fod llawer o'r lleill yn cael eu cofio. Hyd yn oed pan ddigwydd hynny, nid ydym yn oedi'n ddigon hir i feddwl beth y gallwn ei ddysgu ganddynt. Mae *Codi'r Llen*, sydd wedi'i ysgrifennu gyda didwylledd a hiwmor ac wedi'i ddarlunio gan waith celf trawiadol artist ifanc o Rydychen, yn archwilio storïau 40 o ferched mewn 40 o ddyddiau. Gorffennir pob myfyrdod drwy ei gymhwyso'n fyr i fywyd bob dydd, arweiniad i'w ystyried ymhellach a gweddi.

Cyhoeddwyd y llyfr yn Gymraeg fel prosiect gyda chriw'r Tabernacl, Caerdydd, gyda Ruth Davies yn llywio'r prosiect ac yn gweithredu fel golygydd.

**Cyflwyniad yr awdur, Clare Haynes**

Daeth y llyfr hwn i fod oherwydd anwybodaeth. Ychydig flynyddoedd yn ôl, roeddwn mewn siop yn trefnu i gael fframio lluniau pan wnaeth y perchennog, o weld fy ngholer wen, y gosodiad sy'n gwneud i arweinwyr eglwysig grynu: 'Fe fyddwch yn gwybod yr ateb i hyn gan eich bod yn ficer.' Y cwestiwn a ofynnodd oedd, 'Miriam yw enw cariad fy mab, ac rwy'n gwybod ei bod yn y Beibl – ond pwy oedd hi?' Roedd yn gwestiwn da, ond roeddwn yn petruso. Gwyddwn fod a wnelo hi rywbeth â Moses, ond dim llawer mwy. Daeth cwsmer arall i mewn, ac felly cymerais y cyfle i guddio'r tu ôl i'r fframiau er mwyn cael gwglo'i gwestiwn!

Deuthum oddi yno yn benderfynol o ddarganfod mwy am Miriam a hefyd holl ferched eraill yr ysgrythur, a gosodais her i mi fy hun i ysgrifennu am ferch o'r Beibl bob dydd dros 40 niwrnod y Grawys a'i wneud yn flog. Pan ddechreuais, roeddwn wedi bwriadu defnyddio merched y Testament Newydd yn ogystal, ond fe ddarganfyddais fod yna gymaint o ferched ffantastig yn yr Hen Destament ac fe benderfynais, yn hytrach, ganolbwyntio arnynt hwy.

Mae yna ragdybiaeth fod merched yn cael eu hanwybyddu yn arw yn yr ysgrythurau Hebraeg, a phan ysgrifennir amdanynt maent ar yr ymylon ac yn gymeriadau braidd yn ddau-ddimensiwn: dan len dirgelwch, wedi'u cuddio o'r golwg neu ar y cyrion. Mae hyn yn sicr yn wir am rai merched, ond mae yna lawer o rai eraill sydd yn ganolog i'r stori, yn gymhleth ac yn cael eu defnyddio gan Dduw mewn dulliau anghyffredin. Drwy'r merched hyn, darganfyddais fy mod yn gallu deall rhannau o'r Beibl oedd wedi ymddangos yn ddirgelwch cynt. Er bod eu byd yn cael ei reoli gan ddynion mor aml, roedd gan lawer o'r merched hyn ddewisiadau roeddynt yn gallu eu gwneud o fewn cyfyngiadau eu cymdeithas batriarchaidd. Ambell dro roedd y dewisiadau hyn yn cael dylanwad arnynt hwy eu hunain a'u teuluoedd, ac ar adegau eraill daethant ag achubiaeth neu ddinistr i gymuned gyfan, a hyd yn oed newid trefn hanes.

Yn hytrach na threfnu storïau'r merched hyn yn gronolegol o Genesis ymlaen, penderfynais eu grwpio o amgylch themâu oedd yn eu hamlygu eu hunain, megis mamolaeth, gwaith, perthynas a grym. Ni ddylem anwybyddu'r storïau mwy annymunol chwaith, oherwydd maent yn ein hatgoffa bod yna ddioddef a phoen yn ganolog i'r cyflwr dynol, a'r angen am gariad achubol Duw fel y datguddiwyd inni'n llawn drwy Iesu. Gyda hyn mewn golwg, rwyf wedi cynnwys myfyrdod a gweddi ar ddiwedd pob pennod, sydd, gobeithio, yn rhoi storïau'r merched hyn mewn cyd-destun.

Nid bwriad y llyfr hwn yw bod yn astudiaeth ddofn ddiwinyddol; mae yna lawer sy'n fwy cymwys na fi wedi gwneud hynny eisoes. Fy ngobaith yw y byddwch drwy ddarllen y storïau a mwynhau delweddau hardd Micah yn dod i adnabod rhai o'r merched hyn yn well a darganfod, er eu bod wedi byw gannoedd o flynyddoedd yn ôl, bod eu storïau mor anhygoel o gyfoes. Mae gan y merched hyn frwydrau'n ymwneud â pherthynas, cystadleuaeth rhwng brodyr a chwiorydd, heriau ariannol a materion ffrwythlondeb. Mae ganddynt hefyd ddoniau rhyfeddol, sgiliau, ffydd a dewrder.

Drwy godi'r llen ar storïau'r merched rhyfeddol hyn a'u dewisiadau, fy ngobaith yw y gallwn ddod i ddysgu mwy amdanynt a hefyd dod i wybod mwy am gariad helaeth Duw tuag atom ni a phawb arall. Rwyf wedi dysgu cymaint gan y merched hyn ac rwy'n gobeithio y gwnewch fwynhau darllen amdanynt gymaint ag y gwnes i fwynhau ysgrifennu amdanynt.

Y merched y byddwn yn eu cyfarfod fydd: 1. Efa: y dewis cyntaf 2. Hagar: gweld a chlywed 3. Sara: o dan y coed deri 4. Rebeca: ffydd a ffafriaeth 5. Jochebed: y fam ddirgel 6. Hanna: yr un a gododd 7. Rispa: fe gadwodd wylnos 8. Y weddw o Sareffath: rhoi a derbyn 9. Miriam: y broffwydes lawen 10. Debora: y farnwres ryfelgar 11. Hulda: proffwydes barn 12. Rachel: y chwaer gafodd ei charu 13. Lea: y chwaer arall 14. Naomi: chwerwfelys 15. Ruth: calon feddal, traed caled 16. Y Mrs Samson

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Codi'r Llen – Maes Llafur yr Oedolion 2025/26*

*(parhad o dudalen (parhad o dudalen 4)*

gyntaf 17. Merch Jefftha: addewid farwol 18. Michal: caru a chasáu 19. Merched Seloffehad: grym merched 20. Jael: marwol mewn pabell 21. Abigail: llysgennad yr anialwch 22. Brenhines Sheba: ceisydd doethineb 23. Esther: ar gyfer y fath amser â hwn 24. Gwraig Lot: y ferch a droes 25. Gwraig Potiffar: yr hudoles 26. Delila: pam, pam, pam? 27. Jesebel: ei barnu'n annheg? 28. Athaleia: y frenhines ddialgar 29. Dina: anrhydedd neu gywilydd? 30. Tamar: cwymp a chyfiawnder 31. Bathseba: harddwch a'r bwystfil 32. Fasti: #FiHefyd 33. Swsanna: y mae'n gyfyng arnaf 34. Siffra a Pua: y bydwragedd gwrthryfelgar 35. Rahab: putain, arwres neu'r ddau? 36. Cyfryngwraig Endor: mynd yr ail filltir 37. Abisag y Sunamees: y tyst tawel 38. Y wraig Sunamees: gobaith cynyddol 39. Morwyn Naaman: cyngor dewr 40. Merched Salum: dewch, adeiladwn

"Pan fyddaf yn cwrdd â merched yn fy eglwys a'm cymuned, rydw i'n gweld unigolion sy'n ddewr, gonest, ffyddlon, gweithgar, creadigol, clyfar – ac amherffaith, fel fi! A dyna'n union y math o ferched yr ydw i'n cwrdd â nhw yn nhudalennau'r ysgrythurau Hebraeg. Diolch i bawb a gyfieithodd y gyfrol feddylgar ac ymarferol hon i'r Gymraeg, i'n hatgoffa bod lle pwysig ac arbennig i ferched yng nghynllun Duw, nid yn unig yn nhudalennau'r Beibl ond hefyd ym mywyd ein heglwysi a'n capeli dros Gymru heddiw."
*Y Parchedig Ddr Rosa Hunt, Gweinidog Capel y Tabernacl, Caerdydd, a Thiwtor yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd*

"Mae'r gwragedd sy'n camu allan i'n cyfarfod o dudalennau'r llyfr hwn yn cynnwys y rhai sy'n hysbys a'r rhai sydd bron yn anhysbys. Mae rhai o'u straeon yn gorlifo â goleuni a gobaith; mae eraill yn drwm â phoen a thywyllwch. Beth bynnag, gall pob un ohonynt gysylltu – hyd yn oed yn rhannol – â'n bywydau ein hunain. A dyma'r rheswm: ynom a thrwom, rydym yn darganfod yr un Duw yr ydym ni'n ei geisio a'i foli, ein Duw sy'n gweld, sy'n gwrando, sy'n darparu – a charu."
*Y Parchedig Ganon Naomi Starkey, Arweinydd Tîm Ardal Weinidogaeth Bro Padrig ac Efengylydd Arloesi ar gyfer gogledd Ynys Môn*

*Codi'r Llen – Merched yr Hen Destament a'u Dewisiadau* gan Clare Hayns; gol. yr addasiad Cymraeg, Ruth Davies (Cyhoeddiadau'r Gair, 2023; pris £13.99)

# Canu yn yr Ysbryd

### Ennyd

'Ysbaid fer (ond weithiau gryn ysbaid) o amser, talm o amser, adeg hwylus (i gyflawni rhywbeth), cyfle' (Geiriadur Prifysgol Cymru)

Gall ennyd fod yn fyr, mor fyr fel bod modd iddi basio heibio heb inni sylweddoli. Weithiau mae'n ddrws yn agor, rhodd annisgwyl, profiad i'w drysori. Ar adeg arall ymddengys wrth inni brofi gweithred fechan gan arall – gair caredig, gwên, neu neges destun sy'n codi calon. Ac fe all yr ennyd fach honno fod yn agoriad llygad neu'n gymhelliad inni fod yn bobl well. Yn aml, fe ddywed rywbeth pwysig am ein sefyllfa, am ein perthynas ag eraill, am ein ffydd, ac am Dduw. Mewn gair, gall ein hysbrydoli.

### Yr Ysbryd

Beth sydd a wnelo'r Ysbryd Glân â hyn? Sut allwn wybod mai'r Ysbryd yn wir yw'r grym sy'n creu'r ennyd-foment? Ac a oes modd inni fod yn ddall i'r Ysbryd? Dyma rai o'r ymholiadau oedd yn codi yn fy meddwl wrth baratoi am sesiwn Cristnogaeth 21 'Canu yn yr Ysbryd' yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yng nghwmni Lleuwen Steffan a Dafydd Iwan. Cawsom sgwrs ddifyr i rag-gynllunio cyn mis Awst, ond eto roedd y tri ohonom o'r unfarn y dylem roi cyfle i'r Ysbryd ein cynnal. Ac felly y bu, mi gredaf. Calonogol oedd gweld bod cynulleidfa dda wedi teimlo'r awydd i ddod i'r Stiwdio ar y maes i gefnogi'r math yma o sesiwn.

### Grym y Gân

Mae Dafydd a Lleuwen yn gyfansoddwyr yn ogystal â chantorion, ac wedi cyfansoddi caneuon 'ysbrydol' arbennig. Cytunwyd pa mor hanfodol yw mynd dan groen cân wrth berfformio, a hynny wedyn yn gallu creu ymdeimlad o'r Ysbryd yn y gwrandäwr. Mae'r ffydd Gristnogol yn rhywbeth byw a chanu yn arf cadarnhaol sy'n gallu symud pobl. Rhannodd Dafydd ei brofiad o fod mewn angladd yn ddiweddar a'i fod wedi'i synnu nad oedd neb yno'n canu, yn enwedig o gofio mai 'Calon Lân' oedd y gân. Beth ddywed hynny am ein cymdeithas, tybed?

Un peth a ddaeth yn glir o'r trafod oedd ein bod yn gytûn nad grym i'w gau mewn bocs yw'r Ysbryd. Nid nyni, na neb arall, sy'n rheoli pryd y daw i'r fei 'chwaith! Fel y dywedodd Lleuwen, gall ddod ger ein bron mewn goslef llais hudolus, drwy ystum perfformiwr, neu wrth deimlo'r wefr pan fyddwn yn cyd-ganu. Daw atom hefyd wrth brofi rhin y gân a deall ei neges o'r herwydd.

### Geirfa Newydd

Trafodwyd yr angen i ailddarganfod ystyr Cristnogaeth a chreu cyfleon a geirfa newydd. Gwyddom fel y gall y termau diwinyddol arferol beri tramgwydd i rai a bod geiriau fel 'pechod', 'rhagluniaeth', a hyd yn oed 'gras', wedi mynd yn ddieithr i gynifer. Gyda'n gilydd, gallwn ddarganfod ffordd o allu trafod materion ffydd mewn dull ffres a pherthnasol. Mae'r angen am rym yr Ysbryd yn hynny o beth mor gryf ag erioed.

### Ennyd

Cawsom 'dalm o amser' yn yr Eisteddfod i deimlo'r Ysbryd yn ein symbylu ymlaen. Fe geisiais fy ngorau i hwyluso'r drafodaeth, ond yr Ysbryd yw'r Hwylusydd gorau, heb os. Efallai mai nawr yw'r 'adeg hwylus i gyflawni rhywbeth'. Daliwn ar bob cyfle, oherwydd hwyrach mai nyni yw'r rhai sy'n cael ein hannog gan yr Ysbryd i agor drysau newydd. Ni, drwy'r Ysbryd, yw'r rhai all gyflwyno cyfleon i Gymry heddiw i drafod ffydd mewn ffordd gyffrous. Byddwn hyderus felly oherwydd 'dydy Duw ddim wedi rhoi ei Ysbryd i ni fod yn llwfr, ond i'n gwneud ni'n gryf' (2 Timotheus 1:7).

Gyda diolch i Lleuwen Steffan a Dafydd Iwan am ein hysbrydoli yn yr Eisteddfod eleni, ac i'r Ysbryd am ein gwresogi unwaith yn rhagor. Melys moes mwy!

*Sian Meinir*
*(o wefan Cristnogaeth 21)*

# Credo Nicea – Sesiwn Pump – Yr Eglwys ac Undeb (rhan 1)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

## De India

Ysgrifennwyd gan y Gwir Barchg Ddr Royce M. Victor, Esgob Malabar, Eglwys De India

Ochr yn ochr â bod yn Esgob Esgobaeth Malabar, y mae'r Gwir Barchg Ddr Royce M. Victor yn gwasanaethu fel aelod o Gomisiwn Rhyngwladol yr Anglicaniaid a'r Catholigion ar Undeb a Chenhadaeth, ac yn Gyd-gadeirydd Anglicanaidd Comisiwn Rhyngwladol y Pentecostaliaid a'r Anglicaniaid. Cyn hynny, gwasanaethodd fel aelod o'r Ddeialog Ryngwladol Anglicanaidd-Ddiwygiedig.

**Esgobaeth Malabar, Eglwys De India, India**

Ers blynyddoedd, dathlwyd India fel cenedl oddefgar gydag amrywiaeth diwylliannol a chrefyddol. Er gwaethaf hyn, gwelodd y wlad gynnydd yn ddiweddar mewn heriau a wynebir gan leiafrifoedd crefyddol, yn arbennig gan Gristnogion a Mwslimiaid. Arweiniodd hyn at ostyngiad mewn goddefgarwch crefyddol yng nghymdeithas India. Yn ogystal, deil tlodi a gwahaniaethu ar sail 'caste' i fod yn arwyddocaol.

**Eglwys – Undeb**

Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig. Cydnabyddwn un bedydd er maddeuant pechodau.

**Darlleniad o'r Beibl – Effesiaid 4:1–8**

**Undod y Corff**

1 Yr wyf fi, felly, sy'n garcharor er mwyn yr Arglwydd, yn eich
annog i fyw yn deilwng o'r alwad a gawsoch. 2 Byddwch yn
ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan
oddef eich gilydd mewn cariad. 3 Ymrowch i gadw, â rhwymyn
tangnefedd, yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi. 4 Un corff sydd, ac
un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn eich
galwad; 5 un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, 6 un Duw a Thad i
bawb, yr hwn sydd goruwch pawb, a thrwy bawb, ac ym mhawb.
7 Ond i bob un ohonom rhoddwyd gras, ei ran o rodd Crist. 8 Am
hynny y mae'r Ysgrythur yn dweud:
"Esgynnodd i'r uchelder,
gan arwain ei garcharorion yn gaeth;
rhoddodd roddion i bobl."

**Myfyrdod**

Lluniwyd Credo Nicea, sy'n fynegiant sylfaenol o'r ffydd Gristnogol, yn y bedwaredd ganrif OC, fel ymateb i argyfwng y bygythiad o ymddatod oedd yn wynebu'r Eglwys a'r Ymerodraeth o ganlyniad i heresïau gwahanol. Ei brif amcan oedd amddiffyn y ffydd ac undod yr Eglwys yn fyd-eang, ac mae'n dal yn berthnasol hyd yn oed heddiw fel modd i ddwyn pawb sy'n credu yn Iesu Grist ynghyd. Ni ellir gwadu ei bwysigrwydd i hybu undeb Eglwysig a hynny am nifer o ffactorau allweddol.

Yn gyntaf, mae Credo Nicea yn sefydlu nifer o wirioneddau diwinyddol sydd uwchlaw ffiniau enwadau Cristnogol byd-eang. Cynigir sylfaen gyffredin i Gristnogion ar draws y byd gan y gyffes o ffydd yn un Duw, y Drindod, a duwioldeb Iesu Grist. Yn nhirlun crefyddol amrywiol a rhanedig ein dydd, mae Credo Nicea yn fan lle gallwn ddod at ein gilydd, a lle cawn ein hatgoffa fod gennym gred greiddiol gyffredin.



# O'r byd a'r betws

## Llais y ferch ar lwyfannau'r byd a'r betws

Bydd mwyafrif sylweddol ohonom yn dathlu apwyntiad yr Esgob Cherry Vann fel Archesgob diweddaraf yr Eglwys Wladol yng Nghymru. Hi yw Esgob Mynwy, ac fel Esgob Mary Stallard yn Llandaf, mae'r Eglwys Wladol wedi gwneud camau breision ers y dyddiau y bu i'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru ddal yn ôl rhag apwyntio diaconiaid a ficeriaid benyw yn eu hesgobaethau.



Archesgob Cherry Vann

Yn yr un modd nodwn fod Elinor Wyn Reynolds yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae tair gwraig arall yn brif swyddogion eu henwadau, gyda'r Parch. Judith Morris yn gwasanaethu gydag Undeb Bedyddwyr Cymru, y Parch. Nan Powell-Davies gyda'r Eglwys Bresbyteraidd a'r Parch. Jenny Hurd gyda'r Eglwys Wesleaidd.



Elinor Wyn Reynolds

Mae sefyllfa merched yn gwella ar draws sawl maes, a da hynny. Faint o wragedd yng Nghymru sy'n Aelodau Senedd yn San Steffan, a faint sydd yn y Senedd yng Nghaerdydd? Gwerthfawrogwn fod merch yn Llywydd y Senedd, a merch arall yn Brif Weinidog yno. Merch sy'n gweithredu fel Prif Weithredwr yn S4C ac mae merch arall yn gwasanaethu fel Archdderwydd Gorsedd Cymru.

Eto, i ba raddau mae'r gwragedd yn gwbl gyfartal â'r dynion yng Nghymru yn benodol ac ar draws gwledydd Prydain yn gyffredinol? Mae lle amlwg i bob maes wella ar gyfartaledd, ac nid oes unrhyw gyfiawnhad dros laesu dwylo er sicrhau cyfiawnder i ferched. Efallai nad sicrhau cyfleoedd cyfartal yw'r unig prif ffocws, ond gweld tegwch cyfartal ym meddyliau holl boblogaeth Prydain yn benodol, a'r byd yn gyffredinol.

Bu llawer o siarad ffôl parthed y mewnfudwyr honedig anghyfreithlon i Brydain a'r protestio a fu ynglŷn â'r ddarpariaeth o loches dros dro o flaen gwesty'r Bell yn Epping Forest, swydd Essex. Bu traethu ymfflamychol aelodau plaid Reform, ac aelodau o bleidiau eraill hefyd, yn achos i ddenu protestwyr o gryn bellter. Hawliodd rhai ar y cyfryngau torfol mai ychydig iawn o'r protestwyr yn Epping Forest oedd o'r gymuned leol. Mae angen meddwl cyn siarad ac ystyried yn ddwys, cyn llunio unrhyw fath o bolisi gwleidyddol. Pan holwyd Mr Richard Tice, dirprwy arweinydd plaid Reform, ynglŷn â throsglwyddo pobl yn ôl i Afghanistan a'r modd y mae'r Taliban yn trin merched yno, dywedodd nad problem Prydain oedd hynny, ac y dylai'r gwragedd fod wedi ceisio lloches gyfreithlon yn Ffrainc neu yn un o'r gwledydd eraill y bu iddynt deithio drwyddynt. Ni fu Mr Farage yn hir cyn rhoi dehongliad cwbl wahanol ar ddatganiad ei ddirprwy, ond erys y protestio yn Epping.

Elfen arall sy'n peri pryder wrth feddwl am hawliau merched yw agwedd rhai o'r cyrff Cristnogol mwyaf ceidwadol eu diwinyddiaeth, sy'n gwneud datganiadau negyddol am statws merched yn eu cymunedau. Hwy sy'n cyfieithu'r statws israddol y maent yn ei ganiatáu i wragedd yn eu heglwysi yn bolisïau gwleidyddol. Daeth Mr Franklin Graham i annerch cynhadledd luosog yn Birmingham ddechrau Medi, a dyfynnwyd rhai a fynychodd y gynhadledd yn dweud eu bod yn gweld swyddogaeth y ferch fel pobl eilradd i ddynion yn y briodas ac yn yr eglwys. Mae'r meddylfryd hwn yn debyg i ddatganiad yr Eglwys Anglicanaidd yn Nigeria wrth iddynt ymbellhau oddi wrth yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru parthed etholiad yr Esgob Cherry Vann fel Archesgob yr Eglwys yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod o Fedi 2025 hyd fis Gorffennaf 2026, bydd cyfle i ddosbarthiadau Ysgol Sul yr Oedolion a Grwpiau Trafod ein heglwysi ddilyn cyfres o benodau o lyfr am wragedd y Beibl dan olygyddiaeth Mrs Ruth Davies, Caerdydd, sef *Codi'r Llen*. Bydd cyfle yn yr astudiaethau hyn i edrych ar sawl gwedd ar gyfraniad gwragedd ym mywydau'r eglwysi ac i weld a yw'r eglwys yn cyfrannu at y drafodaeth letach o fewn y cymunedau Cristnogol ar un llaw, ac o fewn polisïau'r pleidiau gwleidyddol ar y llaw arall.

Gofynnwn sut ddylai'r eglwysi unigol ymateb, heb anghofio datganiadau pwyllgorau dinasyddiaeth y llysoedd enwadol, wrth glywed rhagfarnau bychanus a dilornus Plaid Reform neu gyrff Americanaidd fel y Southern Baptist Convention yn yr Unol Daleithiau? Bydd golygyddion *Cenn@d* a swyddogion y llysoedd enwadol yn falch o glywed am farn a dealltwriaeth yr eglwysi ar Air Duw yn ein byd, a'n profiad parthed yr eglwys sy'n noddi hawliau cyfartal ac efengyl gynhwysol yn ein bro a'n byd. Hawliwn gyfiawnder i bawb a gweithredu polisïau cwbl gynhwysol yn ein heglwysi, ein henwadau ac yn y byd, ac ymwrthod â dichell ac anghyfiawnder o bob math.

*Denzil Ieuan John*

## *Moelallt ac Emynau Eraill* – Gerald Morgan, 2025

Mae gan bob un ddawn, a'r doniau hynny'n amrywio o'r naill berson i'r llall. Un sy'n amlwg wedi'i fendithio â'r ddawn i ysgrifennu emynau a chyfansoddi tonau yw Gerald Morgan, Tregaron.

Dywedir bod Williams Pantycelyn wedi ysgrifennu dros fil o emynau. Honnir bod Mozart wedi cyfansoddi 800 o ddarnau cerddorol yn ystod ei fywyd byr (bu farw yn 35 oed). Synhwyrir bod ysgrifennu emynau i Bantycelyn, a chyfansoddi cerddoriaeth i Mozart, yr un mor hanfodol ag oedd anadlu. Rhywbeth yn debyg, mae'n siŵr gen i, yw agwedd Gerald Morgan at y naill beth a'r llall. Mae'n gynhyrchiol iawn, ac wedi cyhoeddi toreth o emynau ac emyn-donau yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Cyfrol 36-tudalen sydd newydd ei chyhoeddi yw *Moelallt ac Emynau Eraill*. Ceir yma 24 o emynau a thonau gwreiddiol. Trefnir y tonau i gyd i gynghanedd gyflawn (SATB); gwnaethpwyd y trefniannau i'r cwbwl ac eithrio tair tôn gan Neli Jones, Pontrhydfendigaid. Recordiwyd yr emynau, ac mae modd clywed unawdwyr lleol yn canu'r alawon, i gyfeiliant Neli Jones. Cymwynas fawr yw hynny, a braf clywed talentau o'r fro sy'n cefnogi'r Pethe a'n heisteddfodau lleol – Carys Ann Davies, Miriam Llwyd Davies, Sara Davies, Dafydd Jones, Gwynne Jones a Guto Lewis. (Ceir nodiadau bywgraffyddol iddynt ar dudalennau 34–5.)

Mae Tregaron a'r cylchoedd o amgylch y fro arbennig hon o Geredigion yn amlwg yn ddylanwad mawr ar Gerald Morgan, ac mae blas lleol ar sawl agwedd o'r casgliad. Caiff y gyfrol ei chyflwyno i'r diweddar Barchedig Arthur Wynne Edwards, un a fu'n weinidog ar gapel enwog Bwlchgwynt, Tregaron. Fel sy'n nodweddiadol o waith Gerald, daw enwau nifer o'r tonau o'r ardal, wedi'u cyflwyno i bobol leol, neu i goffáu'r rhai sydd wedi bod yn ddylanwad arno. Cymwynas fawr yw'r esboniad y tu ôl i'r dewis o donau (tud. 32).

A dyma ddod at yr emynau. Mae yma emynau at sawl achlysur, ac at sawl math o gynulleidfa. Anelir rhai ar gyfer plant, a cheir pennawd neu destun i'r cwbwl. Mae'r rheiny'n amrywio o 'Y Crëwr Mawr' (cân o fawl i Dduw'r Crëwr) i 'Daeth y Diwrnod' (sy'n weddi dros Gymru). Ceir hefyd gyfeiriadaeth ysgrythurol wrth ymyl rhai o'r emynau. Trwy'r cwbwl, mae'r emynau yn genhadol eu naws, yn Feiblaidd eu cynnwys ac yn Grist-ganolog. Golyga hyn felly fod yma emynau cadarn, na fyddan nhw'n dyddio nac yn teimlo'u bod nhw 'mewn' na 'mas' o ffasiwn. Dyma gryfder mawr y casgliad, yn fy marn i. Oni bai fod yr emynau'n taro deuddeg, yn ddealladwy ac yn gallu cyffwrdd â'r galon ac â'r enaid, fyddai yna fawr o bwrpas i gyfrol o emynau a thonau.

I'r rheiny ohonom sy'n adnabod Gerald Morgan, gwyddom yn iawn am ei angerdd




at ei Waredwr. Ac o'r angerdd personol a didwyll hwnnw y daw'r casgliad *Moelallt ac Emynau Eraill*. Diolch iddo am ddefnyddio'i ddoniau a rhoi i ni ar gof a chadw ffrwyth ei awen a chynnyrch ei lafur. Gobeithio y caiff lawer foddhad a bendith o'r casgliad hwn – a gobeithio hefyd caiff Gerald flynyddoedd eto i gynhyrchu pethau tebyg ar ein cyfer.

*Delyth Morgans Phillips*

Pwrpas *Moelallt ac Emynau Eraill* gan Gerald Morgan yw codi arian at Open Doors. Mae'r llyfr yn cynnwys cryno ddisg, ond mae hefyd yn bosib lawrlwytho'r emynau drwy gysylltu â'r awdur drwy e-bost. Cost y cyfan yw £13. Os ydych am dalu'n ddigidol, yna cysylltwch ar cyfrolau@yahoo.com neu anfonwch siec (yn daladwy i Gerald Morgan) at: Gerald Morgan, Hafod Wen, Pwllswyddog, Tregaron, Ceredigion, SY25 6JG.

## Ymunwch â ni fel Rheolwr Nesaf yr Ymddiriedolaeth

Addoldai Cymru
Welsh Religious Buildings Trust
CBHC RCAHMW

Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru / Welsh Religious Buildings Trust

- Gweithio o bell (yng Nghymru) | Rhan-amser (4 diwrnod, 28 awr yr wythnos)
- £29,824 y flwyddyn (pro rata) – Cyfwerth ag amser llawn: £37,280
- Contract cyfnod penodol (yn adnewyddadwy yn amodol ar gyllid)

Ydych chi'n frwydfrydig dros dreftadaeth https://addoldaicymru.cymru/ Gymreig, yn fedrus o ran gweinyddu, ac yn barod i gael effaith ystyrlon? Ymunwch ag Addoldai Cymru yn ein cenhadaeth i ddiogelu a dathlu capeli anghydffurfiol hanesyddol Cymru.
Rydym yn chwilio am Reolwr ymroddedig a threfnus i chwarae rhan allweddol mewn rhedeg yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd, gan gefnogi ein staff, gwirfoddolwyr, a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

### Sut i wneud cais

I wneud cais, anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol yn amlinellu eich addasrwydd ar gyfer y rôl at:

- post@addoldaicymru.org

A wnewch chi hefyd gynnwys enwau a manylion cyswllt dau ganolwr (fyddwn ni ddim ond yn cysylltu â nhw os byddwch yn llwyddiannus).

- Ymholiadau anffurfiol? Cysylltwch â'n Cadeirydd, Gerallt Nash, ar gerallt.nash@btinternet.com
- Dyddiad cau: 30ain o Fedi.
- Cyfweliadau rownd gyntaf trwy Zoom | Cyfweliadau terfynol yn bersonol.

Mae Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir a chymuned.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 21 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Trystan Lewis

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 21 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Nerys Brown, Dunblane

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru